OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 54 (Cy.5)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Tai (Hawl i Gaffael a Hawl i Brynu) (Ardaloedd Gwledig Dynodedig a Rhanbarthau Dynodedig) (Cymru) 2003

Wedi'i wneud	- -	*14 Ionawr 2003*
Yn dod i rym	- -	*7 Chwefror 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 157 o Ddeddf Tai 1985(**1**) ac adran 17 o Ddeddf Tai 1996(**2**), ac ar ôl ymgynghori, yn unol ag is-adran (6) o adran 17 o Ddeddf Tai 1996, â'r awdurdodau lleol a'r cyrff a grybwyllir yn yr is-adran honno, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:—

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Tai (Hawl i Gaffael a Hawl i Brynu) (Ardaloedd Gwledig Dynodedig a Rhanbarthau Dynodedig) (Cymru) 2002 a daw i rym ar 7 Chwefror 2003.

Dynodi ardaloedd gwledig

2. Mae'r cymunedau a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn cael eu dynodi'n ardaloedd gwledig at ddibenion adran 157(1)(c) o Ddeddf Tai 1985 (cyfyngu ar waredu tai annedd mewn Parciau Cenedlaethol, a.y.y.b.) ac adran 17(1)(b) o Ddeddf Tai 1996 (hawl tenant i gaffael annedd).

Rhanbarthau dynodedig

3. Mewn perthynas â thŷ annedd yng Nghymru ac eithrio'r un y mae Erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo, ac sydd wedi'i leoli mewn Parc Cenedlaethol neu ardal sydd wedi'i dynodi o dan adran 82 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(**3**), neu adran 87 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949(**4**)) neu ardal sydd wedi'i dynodi gan Erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn ardal wledig, bydd y rhanbarth dynodedig at ddibenion adran 157(3) o Ddeddf Tai 1985 yn cynnwys y canlynol:

(**1**) 1985 p.68;. *gweler* erthygl 2 yn Atodlen 1 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (O.S.1999/672).
(**2**) 1996 p.52; *gweler* erthygl 2 yn Atodlen 1 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (O.S.1999/672).
(**3**) 2000 p.37.
(**4**) 1949 p.97.

(a) y Parc Cenedlaethol hwnnw neu'r ardal honno o harddwch naturiol eithriadol neu'r ardal wledig ddynodedig honno, yn ôl fel y digwydd; a

(b) y rhan o'r sir neu'r fwrdeistref sirol y mae'r tŷ annedd wedi'i leoli ynddi ond nad yw o fewn y Parc Cenedlaethol hwnnw, yr ardal honno o harddwch naturiol eithriadol neu'r ardal wledig ddynodedig honNo.

Ardal Dyffryn Gwy

4.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i dai annedd a leolir yn yr ardaloedd a ddynodir yn ardal o harddwch naturiol eithriadol at ddibenion Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 gan Orchymyn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy (Dynodi) (Cymru) 1971.

(2) Mewn perthynas â thŷ annedd y mae'r erthygl hon yn gymwys iddi, y rhanbarth dynodedig at ddibenion adran 157(3) o Ddeddf 1985 fydd yr ardal sy'n cynnwys y canlynol:

(a) yr ardal a ddynodwyd gan y gorchymyn hwnnw, a

(b) y rhan o'r sir y mae'r tŷ annedd wedi'i leoli ynddi ond nad yw o fewn yr ardal a ddynodir gan y gorchymyn hwnnw.

Dirymu a diwygio

5.—(1) Dirymir Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Ardaloedd Gwledig Dynodedig a Rhanbarthau Dynodedig) (Cymru) 1980(**5**);

(1) Ar gyfer pob tŷ annedd yn y cymunedau a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, sef tŷ annedd sydd wedi'i feddiannu gan ei denant neu denantiaid cyfredol ar 7 Chwefror 2003 neu ar ôl hynnu, rhaid darllen Erthygl 3 o Orchymyn Diwygio Cyfraith Prydlesi a Thai (Tenantiaethau wedi'u Heithrio) (Ardaloedd Gwledig Dynodedig) (Cymru) 1997(**6**) fel petai paragraff (b) wedi'i ddileu.

(2) Ar gyfer pob tŷ annedd yn y cymunedau a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, sef tŷ annedd a oedd wedi'i feddiannu gan ei denant neu denantiaid cyfredol cyn 7 Chwefror 2003, bydd effaith Erthygl 3 o Orchymyn Diwygio Cyfraith Prydlesi a Thai (Tenantiaethau wedi'u Heithrio) (Ardaloedd Gwledig Dynodedig) (Cymru) 1997(**7**) yn parhau yn lle darpariaethau'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**8**) 14 Ionawr 2002

D.Elis-Thomas
14 Ionawr 2002 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) O.S. 1980/1375.
(**6**) O.S. 1997/685.
(**7**) O.S. 1997/685.
(**8**) 1998 p.38.

YR ATODLEN

Erthygl 2

Yn Sir Abertawe

Llangyfelach, Mawr; a'r rhan honno o'r gymuned ganlynol nad yw wedi'i lleoli o fewn Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵ yr: Llanrhidian Uchaf.

Ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg

Ewenni, Gwenfô, Llanbedr-y-fro, Llancarfan, Llandŵ , Llanddunwyd, Llan-fair, Llanfihangel-ynys-Afan, Llan-gan, Llan-maes, Pendeulwyn, Pen-llin, Sain Dunwyd, Sain Nicolas a Thresimwn, Sain Siorys, Saint-y-brid, Tregolwyn, Y Wig.

Yn Sir Caerdydd

Sain Ffagan.

Yn Sir Gaerfyrddin

Abergwili, Aber-nant, Bronwydd, Castellnewydd Emlyn, Cefn Sidan, Cenarth, Cil-y-cwm, Cilymaenllwyd, Clunderwen, Cydweli, Cynwyl Elfed, Cynwyl Gaeo, Eglwys Gymyn, Gors-las, Hendy-gwyn ar Dâf, Henllan Fallteg, Llanarthne, Llanboidy, Llanddarog, Llanddowror, Llandeilo, Llandyfaelog, Llanegwad, Llanfihangel-ar-arth, Llanfair-ar-y-bryn, Llanfihangel Aberbythych, Llanfihangel Rhos-y-corn, Llanfynydd, Llan-gain, Llangathen, Llangeler, Llangynnwr, Llangyndeyrn, Llangynin, Llangynog, Llanismel, Llanllawddog, Llanllwni, Llannewydd a Merthyr, Llan-non, Llanpumsaint, Llansadwrn, Llansawel, Llansteffan, Llanwinio, Llanwrda, Llanybydder, Llan-y-crwys, Manordeilo a Salem, Meidrim, Pencarreg, Pentywyn, Pontyberem, Sanclêr, Talyllychau, Treflan Lacharn, Tre-lech, Trimsaran, a'r rhannau hynny o'r cymunedau canlynol nad ydynt wedi'u lleoli o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: Dyffryn Cennen, Llangadog, Llanymddyfri, Myddfai.

Ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

Argoed, Cwm Darren, Rhydri.

Ym Mwrdeistref Sirol Casnewydd

Allteuryn, Coedcernyw, Langstone, Llanfaches, Llanfihangel-y-fedw, Llan-wern, Nash, Pen-hŵ, Redwick, Gwynllwg.

Yn Sir Ceredigion

Aberaeron, Aber-porth, Beulah, Blaenrheidol, Ceinewydd, Ceulan a Maes-mawr, Ciliau Aeron, Dyffryn Arth, Genau'r-glyn, Henfynyw, Llanbadarn Fawr, Llannarth, Llandyfrïog, Llandysiliogogo, Llandysul, Llanddewibrefi, Llanfair Clydogau, Llanfarian, Llanfihangel Ystrad, Llangeitho, Llangoedmor, Llangrannog, Llangwyryfon, Llangybi, Llangynfelyn, Llanilar, Llanllwchaearn, Llanrhystud, Llansanffraid, Llanwnnen, Lledrod, Melindwr, Nantcwnlle, Penbryn, Pontarfynach, Tirymynach, Trawsgoed, Trefeurig, Tregaron, Troed-yr-aur, Y Borth, Y Ferwig, Ysbyty Ystwyth, Ysgubor-y-coed, Ystrad Fflur, Ystradmeurig.

Ym Mwrdeistref Sirol Conwy

Betws-yn-Rhos, Cerrigydrudion, Eglwys-bach, Llanddoged a Maenan, Llanefydd, Llanfair Talhaearn, Llanfihangel Glyn Myfyr, Llangernyw, Llangwm, Llansanffraid Glan Conwy,